Mehefin 2011
www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rôl Swyddfa Archwilio Cymru a'n rhaglen astudiaethau gwerth am arian

## Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Rôl Swyddfa Archwilio Cymru a'n rhaglen astudiaethau gwerth am arian

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


Yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 4

Ein cydberthynas â chyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio eraill 6

Ein cydberthynas â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 7

Rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru 8

Gwaith sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig 8

Cyflwyno cynigion ar gyfer gwaith newydd 10

Ceisio barn y Pwyllgor 12

# Yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

1 Penodir yr Archwilydd Cyffredinol gan y Frenhines, ar enwebiad y Cynulliad Cenedlaethol. Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff yw Swyddfa Archwilio Cymru.

2 Nod Swyddfa Archwilio Cymru yn gryno yw 'Gwneud i Arian Cyhoeddus Gyfrif' neu yn fanylach, 'hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian.

3 Mae fy mhwerau a'm cyfrifoldebau statudol fel prif archwilydd allanol gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Archwilio ac ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru.
- Archwilio a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd a wna Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.
- Penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Gall archwilwyr penodedig ar gyfer cyrff llywodraeth leol fod yn unigolion cymwys sydd â chymwysterau addas, a all fod yn gwmnïau cyfrifo o'r sector preifat, neu'n un o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru (neu'r ddau).
- Cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol. Yn ogystal ag archwilio eu datganiadau ariannol, mae gan archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol gyfrifoldeb statudol i fodloni eu hunain bod cyrff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.
- Asesu ac arolygu cydymffurfiaeth cyrff llywodraeth leol â gofynion gwella Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio perfformiad y cyrff yn erbyn eu Cynlluniau Gwella a hefyd asesu eu gallu corfforaethol i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol.

4 Cyflwynwyd cod ymarfer archwilio drafft i'r Pwyllgor blaenorol ym mis Mawrth 2010 gan yr Archwilydd Cyffredinol Dros Dro, Gillian Body. Mae'r ddogfen honno - a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2010[1] - yn diffinio'r fframwaith ar gyfer archwilio ac arolygu, y bydd archwilwyr ac arolygwyr yng Nghymru yn mynd ati i gyflawni eu gwaith yn unol ag ef. Yn benodol, mae'n nodi sut y bydd y gyfundrefn yn datblygu o ran adolygiadau systemau cyfan a ffyrdd integredig o weithio ar draws ffiniau, er mwyn sicrhau bod gwaith archwilio ac arolygu yn mynd i'r afael â'r heriau trawsbynciol a chyfannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.

1 Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2010, http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Code_of_Audit_and_Inspection_welsh.pdf

5 Ar adeg pan fo cyrff cyhoeddus yn gorfod ymateb i'r pwysau ariannol sylweddol sy'n eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, credaf ei bod yn hanfodol dangos bod costau rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cyfiawnhau a bod y cyrff a archwilir a'r pwrs cyhoeddus yn cael gwerth am arian. Fodd bynnag, pan fo arian yn brin, mae ein gwaith o gefnogi cyrff cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian i drethdalwyr yn arbennig o bwysig. Ein rôl yw rhoi i bobl Cymru y sicrwydd annibynnol sy'n haeddiannol iddynt, herio'r ffordd y defnyddir eu harian ac annog cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau arloesol sy'n cyrraedd safonau uchel.

# Ein cydberthynas â chyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio eraill

6 Mae ein rôl, fel yr archwilwyr allanol ar gyfer gwariant cyhoeddus Cymru gyfan, yn ein gwneud yn ganolbwynt naturiol i negeseuon gan bob un o'r cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. Ynghyd â'n partneriaid yn Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rydym yn dod o hyd i ffyrdd newydd o wireddu manteision craffu allanol cydweithredol a chydgysylltiedig a chynnig llais cynyddol cydlynol ar gyfer ein gwaith ar y cyd. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd cytundeb strategol ar y cyd gennym i ddangos yr ymrwymiad a rennir gennym i gydweithio a chefnogi gwelliant[2].

7 Mae'r cytundeb yn rhan o fframwaith o weithgareddau cydweithio y mae'r pedwar sefydliad yn ei ddatblygu. Nodau'r gwaith hwn yw cefnogi gwell cydgysylltu o ran gweithgarwch adolygu allanol a datblygu ymhellach y trefniadau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd. Bydd penodi staff prosiect ar y cyd i gefnogi'r broses o ddatblygu cydweithio rhwng y pedwar sefydliad yn sicr yn atgyfnerthu prosesau rhannu gwybodaeth a rhannu data. Bydd hefyd yn gwella'r broses o gydgysylltu gweithgarwch.

8 Cafwyd datblygiadau cyffrous hefyd o ran cysylltu ein gwaith arfer da â gwaith asiantaethau craffu a gwella eraill. Er enghraifft, disgwylir i'r arolygiaethau ymuno â ni'n fuan i gymryd rhan ym mhorth ar-lein Arfer Da Cymru[3]. Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r nod o ddarparu un fynedfa i ystod eang o enghreifftiau o arfer da ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ymwelwyr â'r safle chwilio am enghreifftiau o arfer da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru a gwefannau partneriaid eraill.

2 Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2011, http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/7049.PDF

3 http://www.goodpracticewales.com

# Ein cydberthynas â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

9 Y Pwyllgor yw prif ffocws y Cynulliad Cenedlaethol o ran ystyried yr adroddiadau gwerth am arian a gyflwynir gennyf. Mae'r adroddiadau hyn yn ystyried darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

10 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi sesiynau briffio ar gynnwys yr adroddiadau hyn, sy'n helpu'r Pwyllgor i benderfynu pa gamau i'w cymryd. Rydym hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i'r Pwyllgor, fel y bo angen, er enghraifft: helpu i ddatblygu sesiynau briffio i aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth â thystion o Lywodraeth Cymru neu sefydliadau eraill; rhoi cyngor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adroddiadau'r Pwyllgor ei hun; rhoi cyngor ar ddigonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor.

11 Hefyd, rhaid i mi gyflwyno i'r Pwyllgor fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried yr amcangyfrif a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

12 Mae digwyddiadau'r flwyddyn a hanner diwethaf wedi rhoi ffocws clir ar agweddau ar ein cydberthynas â'r Pwyllgor ac mae wedi troi ei sylw at faterion cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru. Gan edrych i'r dyfodol, mae pwerau deddfu newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu bod hon yn adeg briodol i drafod y fframwaith ar gyfer craffu ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor newydd i ystyried datblygiad pellach y trefniadau hyn yn y dyfodol.

13 Yn unigryw yn y DU, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyflawni dwy rôl ar hyn o bryd fel derbynnydd yr adroddiadau a gyflwynir gennym ac fel ein 'rhiant' bwyllgor o ran ystyried fy amcangyfrif. Pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn arfer mewn mannau eraill ac yn sefydlu pwyllgor ar wahân i'n goruchwylio ni, a fyddai o bosibl yn cwmpasu'r corfforaethau eraill yng Nghymru yn unig megis yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd Safonau, byddai hynny, yn fy marn i, yn sicrhau cydberthnasau llawer cliriach â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei hun.

14 Yn y cyfamser, rwyf eisoes wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ei hun. Rwyf bellach wedi cwblhau'r broses recriwtio ar gyfer aelodau dau bwyllgor llywodraethu newydd (a fydd yn canolbwyntio ar faterion unigol yn ymwneud â chydnabyddiaeth ac adnoddau) yn ogystal ag ailddiffinio cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Byddaf yn gwahodd cyfraniad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at y broses o ddewis cadeiryddion y pwyllgorau llywodraethu hyn.

# Rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru

## Gwaith sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig

15 Mae gweddill y papur yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr astudiaethau gwerth am arian hynny sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd neu rai arfaethedig, yn dilyn diweddariad tebyg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor blaenorol ym mis Tachwedd 2010[4]. Bydd y corff sylweddol o waith a ddisgrifir yn Ffigur 1 yn sail i lawer o weithgarwch y Pwyllgor ei hun dros y 12 mis nesaf a thu hwnt mewn rhai achosion. Rydym hefyd eisoes wedi cyhoeddi adroddiad ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, ar 24 Mawrth 2011. Un o gamau cyntaf y Pwyllgor fydd penderfynu a yw am gasglu tystiolaeth bellach ar ganfyddiadau'r adroddiad, ac os felly ar ba ffurf i wneud hynny.

16 Ceir hefyd gyfleoedd i'r Pwyllgor ailystyried amrywiaeth o faterion a gariwyd ymlaen o waith y Pwyllgor blaenorol, er enghraifft y gwaith o wneud penderfyniadau busnes ynghylch datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru, erydu arfordirol a llifogydd llanw, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Byddwn yn cefnogi'r Pwyllgor yn y gwaith hwn, boed drwy wneud gwaith dilynol pellach neu drwy dynnu sylw'r Pwyllgor at dystiolaeth berthnasol o'n profiad a'n gwaith archwilio ehangach ym mhob rhan o faes gwasanaethau cyhoeddus.

17 Yn y gorffennol, mae fy ngwaith wedi cynnwys astudiaeth a gynlluniwyd o faeth mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Mesur Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ac wedi cael y canfyddiadau a'r argymhellion o ymchwil a gomisiynwyd i werthuso ei Chynllun Gweithredu Blas am Oes (2007) sy'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod mewn ysgolion yng Nghymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad adroddiad dilynol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar dlodi plant ym mis Chwefror 2011, sef y dylid cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar weithredu system prydau ysgol am ddim heb stigma. Gan ystyried y datblygiadau hyn, rwyf wedi penderfynu peidio â pharhau â chynlluniau ar gyfer gwaith yn y maes hwn ar hyn o bryd.

4 Y Newyddion Diweddaraf am Raglen Waith Swyddfa Archwilio Cymru - papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Swyddfa Archwilio Cymru, Tachwedd 2010, http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Forward_prog_welsh.pdf

**Ffigur 1 – Gwaith sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig**

| |
|---|
| **Adroddiadau cyhoeddedig ar gael i'r Pwyllgor** |
| Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai |
| **Cyhoeddiadau arfaethedig rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2011** |
| Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion - gwaith dilynol |
| Contract TGCh Merlin |
| Arloesedd ac effeithlonrwydd: Darlun o wasanaethau cyhoeddus II |
| Cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu a chompostio |
| Hysbysu gofal iechyd |
| Safon Ansawdd Tai Cymru |
| Cyllid y GIG |
| Rheoli grantiau |
| Arian Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd 2007-2013 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| Gwireddu buddiannau'r contract meddygon ymgynghorol |
| **Gwaith arall sy'n mynd rhagddo neu waith arfaethedig** |
| Adolygiad o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Cynllunio at argyfwng - argyfyngau sifil posibl |
| Addysg plant sy’n derbyn gofal |
| Gofal iechyd parhaus |
| Caffael gwasanaethau ymgynghori yn y sector cyhoeddus |
| Rheoli meddyginiaethau |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| Strategaeth adleoli Llywodraeth Cymru |
| Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 |

## Cyflwyno cynigion ar gyfer gwaith newydd

18 Mae strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-2012[5] yn nodi chwe thema strategol ar gyfer ein gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal â'r ddwy thema sy'n canolbwyntio ar ein rôl o gefnogi rhaglen diwygiadau'r GIG a gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol, nododd y strategaeth y byddai ein gwaith yn gwneud y canlynol:

- helpu cyrff yng Nghymru i wella eu defnydd o adnoddau o fewn cyfyngiadau cynyddol yr economi a'r amgylchedd;
- hyrwyddo cymariaethau gwell, data perfformiad clir, ac adroddiadau hygyrch i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dinasyddion;
- hyrwyddo canlyniadau gwell i ddinasyddion drwy weithio ar draws ffiniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu;
- cefnogi'r broses o roi strategaeth Llywodraeth Cymru ar waith yn uniongyrchol a thrwy eraill.

19 Fel y nodais i'r Pwyllgor blaenorol ym mis Tachwedd 2010, pryderaf hefyd y dylai rhaglen astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru:

- ganolbwyntio ar faterion cyfoes mwy uniongyrchol, er enghraifft herio'r sector cyhoeddus i sicrhau gwell effeithlonrwydd a nodi ffyrdd o wella gwasanaethau i'r cyhoedd ar yr un pryd;
- ceisio, lle y bo'n bosibl, rhoi darlun o'r ffordd y mae Cymru'n cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, neu wledydd tramor;
- cynnwys ffocws ar ymyriadau polisi a darparu gwasanaethau a anelir at bobl sy'n agored i niwed;
- ystyried y dyfodol, ac anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol - wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried ffyrdd o gynnwys ystyriaethau datblygu cynaliadwy yng nghwmpas ein holl waith archwilio, gan hefyd adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel ei phrif egwyddor trefnu;
- helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu gwersi o'r gorffennol a llywio'r gwaith o ddatblygu a darparu polisïau yn y dyfodol.

20 Nodais hefyd i'r Pwyllgor blaenorol fy nymuniad i weld Swyddfa Archwilio Cymru'n gwneud mwy o ddefnydd o arbenigwyr allanol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ei hastudiaethau, a gwell defnydd ohonynt. Gallai hyn gynnwys chwilio am gyfleoedd i ddod ag ymarferwyr ac arbenigwyr i mewn i'r sefydliad ar secondiadau byrdymor. Rwyf hefyd yn awyddus iawn i weithio'n agosach gyda chyrff archwilio eraill y DU wrth gynllunio a, lle y bo'n briodol, ddarparu ein gwaith. Er enghraifft, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r posibilrwydd o weithio gyda'n gilydd i gynhyrchu dadansoddiad o dueddiadau gofal iechyd ledled y Deyrnas Unedig.

21 Er mwyn llywio gwaith cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy, ac wrth ystyried agenda bolisi newydd Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddatblygu, bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal dadansoddiad newydd o feysydd astudio posibl yn ystod haf 2011, a ategir gan ymgynghori pellach â rhanddeiliaid allweddol. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, fel y nodais i'r Pwyllgor

5 *Effaith Barhaus mewn Adeg o Newid - strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru 2009-2012,* Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2009, http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/WAO_strategy_cym.pdf

blaenorol, byddaf yn ystyried yn fanylach a oes lle ar gyfer astudiaeth *o waith y sector cyhoeddus i gefnogi'r trydydd sector ac ymgysylltu ag ef.* Rwyf hefyd yn bwriadu cadarnhau cynlluniau ar gyfer gwaith pellach sy'n ystyried agweddau ar roi *Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar waith* (yn dilyn fy adroddiad ar *Brosiectau Trafnidiaeth Mawr* ym mis Ionawr 2011).

22 Yn fy niweddariad i'r Pwyllgor blaenorol ym mis Tachwedd 2010, nodais hefyd fy nisgwyliad y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio ei chyrhaeddiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru i gefnogi'r broses o nodi a lledaenu arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion a chymuned au. Mae gwaith ar y maes hwnnw yn mynd rhagddo mewn llywodraeth leol drwy astudiaeth Cymru gyfan a ddylai nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir a gwaith posibl yn y dyfodol ar draws sectorau eraill. Mae'r gwaith hefyd yn nodi'r rhan y gall byrddau gwasanaethau lleol ei chwarae wrth ddod â threfniadau i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghyd yn eu hardaloedd lleol. Mae archwilwyr wedi bod yn trafod y meysydd penodol o'r gwasanaeth a gaiff eu harchwilio fel rhan o'r gwaith hwn gydag awdurdodau lleol unigol.

23 Mae ehangder fy nghyfrifoldebau hefyd yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno adroddiadau neu gynhyrchion eraill sy'n deillio o waith archwilio ariannol neu waith archwilio perfformiad lleol. Er enghraifft, roedd fy adroddiad diweddar ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai yn dilyn adroddiadau a baratowyd ar gyfer pob un o'r byrddau iechyd lleol yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Roedd y gwaith archwilio lleol hwnnw yn rhan o'r rhaglen archwilio perfformiad rwyf yn cytuno arni bob blwyddyn â sefydliadau unigol y GIG. Bydd yr adroddiad rwyf yn bwriadu ei gyhoeddi ar Reoli Grantiau yn dwyn ynghyd gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd yn sgîl agweddau amrywiol ar waith Swyddfa Archwilio Cymru yn y maes hwn ers 2005. Mae'r gwaith hwnnw yn cynnwys ein rôl yn y gwaith o ardystio ceisiadau grant gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac astudiaethau gwerth am arian blaenorol ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau grant penodol.

24 Yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith archwilio lleol yn y GIG ar amrywiaeth o themâu gan gynnwys: ystafelloedd llawdriniaethau a llawdriniaethau dydd; gwasanaethau mamolaeth; ymgysylltu clinigol; gofal heb ei drefnu; rheoli cyflyrau cronig; ansawdd data; llywodraethu gwybodaeth; a chyflwyno cynlluniau ar gyfer arbed costau. Yn yr un modd, fel rhan o'r broses o weithredu ein gwaith Asesiad Gwella mewn llywodraeth leol, mae archwilwyr yn datblygu archwiliadau lleol ar amrywiaeth o themâu cyffredin gan gynnwys prosesau cynllunio ariannol tymor canolig, prosesau cynllunio Adnoddau Dynol a'r gweithlu, partneriaethau a chydweithio a rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Byddaf yn ystyried cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith archwilio lleol hwn er mwyn cyflwyno adroddiadau ychwanegol a/neu gynhyrchion eraill sy'n cefnogi gwelliant.

25 Wrth ychwanegu at raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru byddaf yn ceisio sicrhau dull gweithredu cytbwys a hyblyg, gan ystyried:

- yr egwyddorion craidd a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 18 a 19;
- cymysgedd o waith ar draws y sector cyhoeddus cyfan - gan fanteisio ar sefyllfa unigryw Swyddfa Archwilio Cymru - ac

astudiaethau sy'n benodol i'r sector ar draws meysydd gwahanol o wariant cyhoeddus;

- canolbwyntio rhai o'n hadnoddau ar waith dilynol i sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i'n gwaith archwilio blaenorol, ac adroddiadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;
- cyfleoedd i gyflwyno adroddiadau, fel y bo'n briodol, ar ganfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar draws y sector cyhoeddus;
- yr angen i sicrhau y gellir ymateb ar fyr rybudd i bryderon y cyhoedd;
- darnau o waith sydd â'r prif ddiben o nodi a lledaenu arfer da a dysgu a rennir.

## Ceisio barn y Pwyllgor

**26** Rwyf yn bwriadu cyflwyno papur i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2011 a fydd yn nodi'n fanylach y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn 2012. Fodd bynnag, rwyf am ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor yn llawn wrth ddatblygu fy rhaglen waith, a byddwn yn croesawu arwydd cynnar os bydd unrhyw bynciau yn peri pryder penodol i aelodau. Yna gellir mynd i'r afael â'r cwmpas ar gyfer gwaith yn y meysydd hyn fel rhan o'r ymarfer dadansoddi ac ymgynghori a gynhelir dros y misoedd nesaf.